50367

106

# PENILLION

YN DANGOS

# MAWREDD CARIAD CRIST

AT DDYNION COLLEDIG;

A GYFANSODDWYD

## GAN GEORGE HICKS,

GWR TRA DUWIOL O

WAITH HAIARN RUMNEY, SWYDD FYNWY,

*Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth o'r Cholera,*

Yr hyn a gymerodd le ar y 27 o Orphenaf, 1849.

---

*Ar ddymuniad taer ei gyfeillion gynt, ei Weddw alarus a roddodd adysgrif o'i Fyfyrdod hwyrol, gan ganiatâu eu hargraffu:—bydd rhai'n yn fedd adail iddo.*

---

"Eu gweithredoedd yn eu canlyn hwynt."

---

1.

Fe ddywedodd y Proffwydi am y Messia mawr
Rhyw lawer o flynyddau cyn iddo dd'od i lawr,
Er gwirio'r broffwydoliaeth, fe'i gwelwyd wedi dod
I wneyd ei drigfan yma rhyw ychydig is y rhod:
Nid llawer oedd yn credu i fod fath beth yn bod.

2.

Fe aned ein Gwaredwr, do, draw yn Meth'lem dre,
Ar foreu dydd Nadolig, mi gofiaf am y lle;
Un oedd o uchel urddas, un isel gyda dyn,
Un oedd a wnaeth ddaioni, 'does tebyg iddo ei hun;
Fe drefnodd ffordd i achub holl ddynol ryw bob un.

3.

Yr oeddem ni yn Adda oll wedi syrthio i lawr,
Fel nad oedd modd ymgodi o'r fath drueni mawr;
Oni buasai iddo ddyfod, O hynod ddedwydd awr,
I drefnu ffordd i gadw tylodion gwael y llawr,
Bydd canu am y weithred i drag'wyddoldeb mawr.

4.

Ni buasei unrhyw obaith am ddim ond ochain byth,
A wylo mewn trueni a'r tân yn fflamiau syth,
Oni buasei 'r tirion Feichiau i gofio am danom ni,
A rhoi ei hun i farw ar fynydd Calfari:
Canmolwn byth a chanwn i'n hanwyl Iesu cu.

5.

Un rhyfedd yn ei fywyd oedd yma gyda ni,
Yn caru gwneyd daioni y'mhob man ag y bu;
Rhoi llygaid wnaeth i ddeillion, byddariaid ga'dd eu clyw,
A thraed fe rodd i gloffion, cyfodai'r meirw yn fyw:
Rhyfeddol ydoedd gallu a chariad gwir Fab Duw.

6.

Trafaelodd oddi amgylch trwy'r trefydd a thrwy'r wlad,
Gan wella pob rhyw glefyd, gwnai hyny 'gyd yn rhad;
Mae'n bryd i ninnau godi a chanmol cariad Duw,
Am wneyd yr holl ddaioni trwy'n hanwyl Iesu gwiw,
Canmolwn a chlodforwn tra byddom yma'n byw.

7.

Yn Cana Galilea gwnaeth win o'r dwfr glân,
Ni welwyd ac ni chlywwyd erioed fath beth o'r bla'n,
Ac hefyd, medd yr hanes, y goreu win oedd hwn,
Ei debyg ni phrofasid o fewn y byd yn grwn:
Rhyfeddol allu Duwdod a wnaeth y peth mi wn.

8.

Fe borthodd bump o filoedd ar bump o dorthau haidd,
Ac hefyd ddau bysgodyn, a hyny nid o braidd,
Hwy gawsant eu digoni, a gweddill oedd i gael,
Can's llanwyd deuddeg basged o'r briwfwyd yn ddiffael:
Yr un yw Iesu heddyw, mae ganddo galon hael.

9.

Pan ar y môr fe gysgodd heb gystudd dan ei fron,
Y gwynt ddechreuodd chwythu, a'r môr yn chwyddo ei dòn,
O'r diwedd aeth yn 'storom, daeth ofn ar bob un,
Nes iddynt waeddi allan gan ddeffro Mab y Dyn,
Ac yna cawd tawelwch, mor hyfryd oedd yr hin.

10.

O'r diwedd fe'i arweiniwyd i ben Calfaria fryn
Gan lu o ddynion creulon, peth rhyfedd iawn oedd hyn;

Y gwr sy'n dàl y bydoedd rhag iddynt syrthio i lawr,
Yn cym'ryd triniaeth arw gan dlodion gwael y llawr,
Mewn munud gall'sai'u chwythu i'r trag'wyddoldeb mawr.

11.

Dyoddefodd driniaeth greulon dan hoelion ar y pren,
Bu yno dair o oriau cyn plygu lawr ei ben;
Pan yn dyodde'r loesion, rhai chwerwon, drosom ni,
Yr haul ni rodd ei golau, ond gwisgodd *fwrning* du,
O'r chwechfed awr i'r nawfed tywyllwch mawr a fu.

12.

'Roedd Beelzebub a'i deulu oll yno yn ddible,
Pob un hyd eitha' ei allu yn erbyn Brenin Ne';
Ond diolch byth, mi gofiaf, ca'dd fuddugoliaeth lawn,
Y llyfrau gadd eu clirio cyn tri o'r gloch prydnhawn;
Mae'r ffordd yn rhydd i'n cadw, a hyn ar gyfri'r Iawn.

13.

Bu dridiau, do, a thair nos yn gorwedd yn y bedd,
Carcharor oedd gan angau, gwr llymaidd iawn ei gledd;
Ond ar y trydydd boreu yn gadarn daeth i'r làn,
A phardwn yn ei ddwylaw i ni rai llesg a gwan;
Gogoniant idd ei enw yn barchus y'mhob màn.

14.

Mae'r tir rhy faith i'w gerdded i ddweyd am dano i gyd,
Ni ddywedir byth mo'r haner am Brynwr mawr y byd;
Pe byddai'r byd yn bapur, a'r môr o *ink* yn grwn,
Ni byddai haner digon i ddweyd am harddwch hwn;
'Nol croesi'r hen Iorddonen cawn weled hyn mi wn.

15.

O bechaduriaid mawrion, rai gwaelion, tlodion trist,
Mae modd i'ch cadw'n ddiogel trwy haeddiant Iesu Grist;
O plygwch iddo'n ddibrin mewn edifeirwch 'nawr,
A gweddiwch am faddeuant o flaen ei orsedd fawr,
Fe wrendy eich cwynfanau—ni th'rawa neb i lawr.

16.

Chwi ellwch benderfynu fy mod yn dweyd y gwir,
Edrychwch ar ei fywyd, cewch weled hyn yn glir,
Mai graslawn a thrugarog yw'n hanwyl Iesu mawr,
Mae'n werth i bawb ei garu a chredu ynddo 'nawr,
A dweyd yn dda am dano tra paro dyddiau'r llawr.

17.

Dymunwn weled tyrfa o bechaduriaid mawr
Yn dod yn ufydd galon a phlygu iddo 'nawr,

I 'mofyn am faddeuant yn haeddiant Pen y bryn,
Bydd tyrfa wedi eu golchi yn canu byth am hyn,
A'u dagrau wedi 'u sychu a'u gwisg yn eitha' gwyn.

18.

Gwrandewch fy hoff gyfeillion, a'm holl berth'nasau i gyd,
Paham y gwnewch ffolineb ac aros gyda'r byd;
O brysiwch i Galfaria 'gael gwledda yn ddidrai,
A'ch gwneud yn gyfoethogion o drysor sy'n parhau,
Mae digon gan yr Iesu, am hyny deweh bob rhai.

19.

Dymunwn weled bendith ar hyn o gân bob gair,
Fel delo llawer eto i 'mofyn am Fab Mair,
A rhoi eu hunain iddo yn gryno hyd eu bedd,
A cheisio gwir dduwioldeb i ganlyn Brenin Nef;
Caiff pawb yr auraidd elw a geisio ganddo ef.

20.

Pe bawn ni 'nawr ond meddu ar ddawn a deall da,
Ni wnawn i ddim ond canmol, mewn cân, y meddyg bra',
Fe ganwn byth am loesion fy Ngheidwad ar y groes,
Fe gofiwn am ei eiriau diweddaf yn ei oes;
A phan aeth *Eloi* allan, yr iawn yn gwbl a roes.

21.

Rhaid i mi 'nawr derfynu a gorphen ar fy nghân,
O ddiffyg dawn a goleu gael geiriau fyn'd y'mla'n;
Hyn eto 'rwy'n ddymuno yn gryno i bawb trwy'r byd,
I gredu yn yr Iesu, a hyny 'nawr mewn pryd,
Yn fyw fe ddichon gadw eich henaid oll i gyd.—Amen.

*D. Jones, Argraffydd, Merthyr Tydfil.*